

Cyngor Caerdydd

**Diogelu
Hanfodol**

Canllaw Cyflym

Dylid ei ddarllen ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Gellir lawrlwytho Gweithdrefnau Diogelu Cymru (GDC) ar App Store Apple neu siop Google Play. Mae fersiwn cyfrifiadur ar gael hefyd.

Beth yw Diogelu?

Y broses o amddiffyn plant ac oedolion rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Mae hefyd yn golygu sicrhau bod plant ac oedolion yn mwynhau iechyd da, yn datblygu'n dda ac yn chwarae rôl lawn a gweithredol yn eu cymunedau.

Pwy sy'n gyfrifol am ddiogelu?



Mae diogelu'n gyfrifoldeb ar bawb.

Rydym **i gyd** yn gyfrifol dros sicrhau bod plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn aros yn ddiogel. Golyga hyn chi.

Golyga hyn y dylem ni i gyd sicrhau ein bod yn gwybod beth yw diogelu a phryd mae angen i ni wneud rhywbeth i atal cam-drin rhag digwydd.

Mae GDC yn dweud wrthyfych beth i'w wneud ac mae'n rhoi "awgrymiadau arfer" i'n harwain ar **sut** i gwblhau'r dasg.

Sut rydym yn Diogelu?

Rydym yn diogelu trwy wneud y pethau isod:

- Deall beth yw ystyr diogelu

- Adnabod gwahanol fathau o gam-drin a'u harwyddion, eu symptomau a'r ymddygiad a allai fod yn arwydd bod plentyn neu oedolyn yn cael ei gam-drin neu ei fod yn wynebu risg o niwed.
- Deall beth i'w wneud os ydym yn pryderu bod plentyn neu oedolyn yn wynebu risg.
- Deall ein cyfrifoldeb o ran amheuaeth neu ddatgelu cam-drin
- Deall ein dyletswydd i adrodd am bryder neu ddigwyddiad pan gawn wynbod amdano

Pa ffurf sydd i gam-drin?

Mae cam-drin ac esgeulustod yn ffurfiau ar drin plentyn neu oedolyn yn wael y gellir ei rhoi mewn pum categori:

- Cam-drin Corfforol
- Cam-drin Rhywiol
- Esgeulustod
- Cam-drin Emosiynol
- Cam-drin Ariannol

Cam-drin Corfforol:

- Gall hyn gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi, sgaldio, boddi neu fygu neu achosi niwed corfforol i blentyn neu oedolyn.

Cam-drin Rhywiol

- Gorfodi neu ddenu plentyn neu oedolyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, waeth p'un a yw'n ymwybodol ai peidio o'r hyn sy'n digwydd. Gallai hyn gynnwys:
- Cyffwrdd corfforol, gan gynnwys gweithrediadau treiddio neu heb dreiddio;
- Dim cyswllt corfforol, megis cynnwys plentyn neu oedolyn yn edrych ar neu yn rhan o gynhyrchu deunydd pornograffig neu wyllo gweithgareddau rhywiol; neu
- Annog oedolion neu blant i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n rhywiol amhriodol.

Esgeulustod

Esgeulustod yw peidio ag ateb anghenion sylfaenol corfforol a/neu seicolegol plentyn neu oedolyn, sy'n debygol o arwain at niweidio ei iechyd neu ei ddatblygiad yn ddifrifol.

Gall hyn gynnwys rhiant, aelod y teulu neu ofalwr yn peidio â rhoi bwyd, dillad neu loches digonol, peidio â diogelu plentyn neu oedolyn rhag niwed corfforol neu berygl neu beidio â sicrhau y caiff ofal neu driniaeth ddiogel.

Gall hefyd gynnwys esgeuluso neu beidio ag ymateb i anghenion emosiynol plentyn neu oedolyn.

Cam-drin Emosiynol

Trin plentyn neu oedolyn yn wael yn emosiynol, nes achosi effaith negyddol ddifrifol a pharhaus ar ei ddatblygiad emosiynol ac ymddygiadol.

Gall hyn gynnwys dweud wrth y plentyn neu'r oedolyn ei fod yn ddiwerth neu nad oes unrhyw un yn ei garu, ei fod yn annigonol neu na chaiff ei werthfawrogi onid yw'n ateb anghenion rhywun arall.

Gall gynnwys codi ofn ar blant neu oedolion neu wneud iddynt deimlo mewn perygl, er enghraifft drwy fod yn dyst i gam-drin domestig yn y cartref neu gael eu bwlio, neu drwy ecsploetiaeth neu lygredigaeth.

Cam-drin Ariannol

- Dwyn arian neu eiddo;
- Twyllo ariannol e.e. cynllwynion ariannol
- Cael ei roi dan bwysau i dalu am bethau er budd rhywun arall
- Defnyddio arian rhywun arall fel arian ei hun.
- Plant yn ennill arian trwy ddigwyddiadau adloniant a'r arian hwnnw ddim yn mynd i ymddiriedolaeth.

Cam-drin Arall:

- Bwlio
- Priodas dan Orfod
- Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod
- Plant neu Oedolion ag Anableddau

- Caethwasiaeth Fodern
- Camfanteisio Rhywiol
- Radicaleiddio
- Cyfryngau Cymdeithasol

Lleoliadau lle mae camdriniaeth yn digwydd

Gall cam-drin neu esgeulustod ddigwydd yn unrhyw le - e.e. yng nghartref y plentyn/oedolyn, neu gartref aelod o'r teulu, mewn lleoliad gofal preswyl neu ofal dydd, yn ystod gweithgareddau hamdden, mewn ysgolion neu glybiau ieuenctid neu feithrinfa, mewn ysbytai neu leoliadau crefyddol. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr

Gyda phwy rydym ni'n rhannu'n pryderon?



gg72477315 www.gograph.com

Os nad ydych am drafod pethau'n uniongyrchol gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, wedyn gallwch rannu unrhyw bryderon gyda'ch rheolwr llinell, Rheolwr Gweithredol eich gwasanaeth, neu unrhyw Reolwr Gweithredol arall sydd ar gael.

Os yw'r mater yn un brys ac mae potensial o berygl, wedyn peidiwch ag oedi rhag siarad â'ch rheolwr, ffoniwch yr heddlu ar 999.

Sut rydym ni'n rhannu pryderon pan ydym yn credu bod rhywun yn cael ei gam-drin neu'n wynebu risg o gael ei gam-drin?



Os ydych yn credu bod plentyn neu oedolyn mewn perygl uniongyrchol, ymatebwch yn syth – ffoniwch 999 a dweud wrth y gweithredwr ffôn beth sy'n digwydd.

Os ydych yn credu bod plentyn neu oedolyn yn cael ei gam-drin, mae'n rhaid i chi ddweud wrth rywun.

Os ydych yn meddwl neu'n credu bod oedolyn yn cael ei gam-drin, cysylltwch â'r tîm diogelu Oedolion ar

029 2233 0888

Os ydych yn credu bod plentyn mewn perygl, nad yw'n cael gofal cywir neu os oes gennych bryderon ynghylch ei les, cysylltwch â ni ar:

029 2053 6490

Os oes gennych bryderon y tu allan i oriau swyddfa, ffoniwch y Tîm Dyletswydd Brys ar

029 2078 8570

Cofiwch:

Mae diogelu'n gyfrifoldeb arnoch chi - a gallai peidio ag adrodd arwain at gamau dan weithdrefnau disgyblu a/neu reoli'r Cyngor dan y prosesau Cyhuddiadau/Pryderon Diogelu Ynghylch Ymarferwyr neu Bersonau sydd mewn Swydd Gyfrifol.

Mae ar blant ac oedolion sy'n wynebu risg, lle bynnag y maen nhw'n byw, angen i ni weithredu'n briodol er mwyn diogelu eu llesiant a sicrhau eu lles.

Efallai bod gennych bryderon am ddiogelwch a lles plentyn neu oedolyn a allai fod yn byw mewn ardal awdurdod lleol arall: fel arfer, byddech yn adrodd hynny yn ardal y mae'r plentyn neu'r oedolyn yn byw ynddi ond os nad ydych yn siŵr, yna cysylltwch ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol Caerdydd am gyngor

Neu efallai y byddwch yn pryderu am ddiogelwch a lles plentyn neu oedolyn yr ydych yn gwybod sydd eisoes yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol - peidiwch â meddwl nad oes rhaid i chi roi gwybod am y pryderon hynny

Mae'ch dyletswydd i adrodd yn golygu bod yn RHAID i chi ddweud wrth rywun os ydych yn credu bod plentyn neu oedolyn yn cael ei gam-drin

Pryderon am Ymarferwyr a/neu gydweithwyr

Mae'r ddyletswydd i adrodd yr un mor berthnasol i bryderon ag amheumon y gall ymarferydd arall neu gydweithiwr fod yn cam-drin, esgeuluso neu achosi niwed i blentyn neu oedolyn.

Gall ymarferwr fod yn wirfoddolwr cyflogedig neu ddi-dâl, â swydd gyfrifol e.e. gall fod yn weithiwr cymdeithasol neu'n athro, yn feddyg neu'n nyrs, yn gynorthwy-ydd gofal neu'n weithiwr gofal iechyd, yn swyddog heddlu, yn weithiwr ieuencid neu'n swyddog prawf, yn ddeintydd neu'n ofalwr maeth, yn Ymwelydd Iechyd, yn oruchwyliwr canol dydd mewn ysgol, yn gynorthwy-ydd addysgu, yn hyfforddwr chwaraeon neu'n offeiriad, ficer neu Imam mewn sefydliad crefyddol. DS Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

Gall y pryderon neu'r amheumon ymwneud ag ymddygiad ymarferwyr yn y gwaith neu'r cartref – gall yr ymarferydd fod yn aelod o'r teulu neu'n ffrind neu'n gymydog - mae'n RHAID i chi rannu eich pryderon; mae dyletswydd arnoch i wneud hynny.

Os nad ydych yn siŵr, gwiriwch hynny drwy gysylltu â'r adran gwasanaethau cymdeithasol. Mae dyletswydd arnoch i wneud hynny.

